

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Mehefin 1af, 2017 yn brydlon am 7-00 y.h. yn

FESTRI CAPEL PENCAENEWYDD

1. Ymddiheuriadau.
2. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor.
3. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd y Cynghorwyr.
4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fai 11eg, 2017.
5. Arwyddo cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
7. Datgan buddiant personol.
8. Seddau gwag ar y Cyngor; Ward Llanystumdwy, 2 sedd; Ward Chwilog, 3 sedd; Ward Llangybi, 1 sedd; cyfethol aelodau i'r Cyngor.
9. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mai 2017.
 2. Gwasanaeth Cyfreithiol; Y Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod. a Hyfforddiant.
 3. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; llwybrau Garn Bentyrch a Phont Merchaid.
10. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y gymuned:
 1. Cais Rhif: C17/0428/41/LL – Codi modurdy newydd a darparu ffenestri gromen ar yr eiddo presennol; Morwel, Llangybi.
11. Un Llais Cymru:
 - a. Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Cymuned Llanystumdwy.
 - b. Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2017.
 - c. BDO – cyfieithu dogfennau.

12. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Cyflwr y bont ar y ffordd osgoi yn Llanystumdwy.

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion Ariannol

13. Derbyn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2017.
14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
15. Cae Chwarae Llangybi; trafod prisiau am dorri/clirio/tocio drain a glanhau matiau am weddill y tymor yma.
16. Canclwm Siapaneaidd
 - a. ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy. Derbyn pris am ei waredu.
 - b. ar dir Dŵr Cymru yng ngheg y llwybr yn Afonwen.
17. Anfoneb angen ei dalu: Trefn, am waith crafu a phaentio 3 o feinciau'r Cyngor, Cae Chwarae Llangybi, Cae Capel, Chwilog a gyferbyn â cheg lôn Ynysgain; £110- taliad BACS. Mae hwn yn llai na'r pris o £290- dderbyniwyd yng nghyfarfod y Cyngor Ionawr 3ydd, 2017 achos fe newidiwyd manylion y gwaith (penderfyniad cyfarfod Mai 11eg, 2017).

It is possible to get a translation, contact the Clerk.

